***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1221

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

**Diwygio Rheoliadau 2010**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau 2010 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 1 (Esemptiadau), ar ôl "podiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol" mewnosoder ", radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol".

(3) Ym mharagraff 1(3) o Atodlen 1 yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"mae i "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol" ("*therapeutic radiographer independent prescriber*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013;"